

Y 27ain o Fedi, 2024

Annwyl Bev Smith, Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru,

Rydym yn cysylltu ynglŷn â phroses a gweithdrefnau'r Comisiwn fu'n sail i ddatblygu Cynigion Cychwynol Arolwg 2026.

Byddwn yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad gyda sylwadau perthnasol i sylwedd y cynigion yr ymgynghorir arnyn nhw maes o law ac yn gyfochrog gyda'r ohebiaeth hon, felly nid ymateb i'r ymgynghoriad yw'r llythyr hwn.

Yn hytrach, rydym yn dymuno cyflwyno cwyn ffurfiol o dan drefniadau perthnasol y Comisiwn ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch materion sylfaenol am broses, gweithdrefn a dull y Comisiwn o fynd ati i ddatblygu'r Cynigion cychwynol.

Cefndir

Yn benodol, mae gennym le i gredu fod y broses honno wedi (1) methu ag ymateb i'r ddeddfwriaeth gynradd yn gywir a (2) wedi methu ag ymgorffori a chymhwyso'r fframwaith polisi a deddfwriaeth o ran y Gymraeg yn briodol.

Ein nod wrth ohebu felly yw:

- sefydlu cywirdeb a phriodoldeb y broses, y weithdrefn a'r dull o enwi yn gyffredinol ar gyfer yr adolygiad 2026 o ran y Gymraeg
- rhoi cyfle i'r Comisiwn amlinellu yn dryloyw - y tu hwnt i'r hyn y mae eisoes wedi'i roi yn y pau cyhoeddus - beth yn union yw'r meddylfryd a'r rhesymeg sy'n sail i'r dull enwi a'r graddau y mae hynny'n cyd-fynd â llythyren ac ysbryd y ddeddfwriaeth gynradd, yn enwedig Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, a rhoi sicrwydd am yr ystyriaeth gydwybodol y mae wedi'i roi i hynny, a sut y mae wedi cymhwyso hyn i'r Cynigion Cychwynol
- gwahodd y Comisiwn i ystyried a chadarnhau pa newidiadau sydd eu hangen, ac a fydd yn cael eu gwneud, i gryfhau prosesau/gweithdrefnau/dull enwi'r Comisiwn cyn cyfnod nesaf y broses adolygu ffiniau, er mwyn sicrhau y gall y camau nesaf gael eu cynnal yn unol â'r Ddeddf, a'r fframwaith polisi a deddfwriaeth ehangach ar gyfer y Gymraeg.

Bu cynnydd amlwg yn statws y Gymraeg a'r ymdeimlad o falchder tuag at yr iaith sydd wedi datblygu yn ystod chwarter canrif cyntaf datganoli. Yn yr ysbryd hwnnw felly y gwelwn benderfyniad yr Aelodau etholedig - o safbwynt y drefn o enwi etholaethau arfaethedig - yn achos y ffiniau i'w defnyddio un-tro yn unig yn etholiad 2026, ac mewn etholiadau dilynol

wedi 2030, i sefydlu rhagdybiaeth glir o blaid pennu un enw ar bob etholaeth. Yn erbyn cefnlen fframwaith polisi a deddfwriaeth lle mae:

- y Gymraeg yn iaith a chanddi statws swyddogol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- 'Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o'r 7 nod llesiant yn unol â'r ddeddfwriaeth datblygu cynaliadwy Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- targed â chefnogaeth drawsbleidiol i gael Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i ddyblu'r defnydd dyddiol ohoni, a
- lle mae'r Gymraeg, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn 'perthyn i bawb'

yna mae'n bur amlwg mai un enw Cymraeg a fwriedir ac a ddymunir gan y Senedd wrth graffu ar a chymeradwyo'r ddeddf. Nodwn fod y Bil wedi'i *gryfhau* yn ystod cyfnod craffu'r Bil, fel ag yr oedd, o'i gymharu â'r Bil fel y'i cyflwynwyd, a hynny er mwyn pwysu'r fantol o blaid y Gymraeg. Yn wir, nid oes ond angen edrych yn y Memorandwm Esboniadol y ddeddfwriaeth, fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, i gadarnhau'r bwriad.

*"310. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn darparu bod rhaid i bob etholaeth gael enw unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol, ac os felly caniateir iddo gynnig enwau gwahanol i'w defnyddio wrth gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhagdybiaeth y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd. **Bwriad hyn yw hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a bwrw ymlaen â pholisïau a dyheadau datganedig Llywodraeth Cymru o ran polisi iaith.**" (ein pwyslais ni)*

*712. Yn dilyn gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2, mae'r rhagdybiaeth bellach wedi newid fel y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd, ac ni fydd ond yn cynnig enwau gwahanol ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg pe bai'r Comisiwn yn ystyried bod un enw yn annerbyniol. **Effaith hyn yn ymarferol yw bod rhaid i'r enwau unigol a gynigir ar gyfer etholaethau fod yn dderbyniol i'w defnyddio yn y Gymraeg.** (eto, ein pwyslais ni) Mewn sefyllfa lle byddai enwau gwahanol yn cael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'r gofyniad i gynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau yn parhau.*

Ategir a thanlinellir hyn gan gyfraniadau'r Aelodau Etholedig yng Nghofnod y Trafodion wrth graffu a chytuno'r ddeddfwriaeth a'r gwelliannau wnaed iddi. Cryfhawyd y ddeddfwriaeth yn ogystal o ran rôl Comisiynydd y Gymraeg. Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn cydnabod ei swyddogaeth fel awdurdod ar argymell ffurfiau safonol enwau lleoedd.

Mae'r Comisiwn hefyd wrth gwrs o dan ddyletswydd i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg ac mae safon 85 yn Hysbysiad Cydymffurfio'r Comisiwn yn ymddangos yn arbennig o berthnasol yma. Mae'r safon hon yn datgan pan fydd y Comisiwn yn llunio polisi newydd ac yn gwneud penderfyniadau polisi bod yn rhaid ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, **neu effeithiau mwy positif** (ein pwyslais ni), ar

gyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweithdrefn, polisi a dull enwi cyhoeddiedig y Comisiwn

Nodwn mai prin yw'r ymdriniaeth yn y ddogfen ganllaw i arolwg 2026, a gyhoeddwyd ar 19ain Gorffennaf eleni, o'r egwyddorion a'r profion y mae'r Comisiwn wedi'u sefydlu i bennu o dan ba amgylchiadau y byddai'n 'annerbyniol' i etholaeth fod ag un enw Cymraeg a sut y bwriada'r Comisiwn benderfynu pryd a sut i weithredu yn groes i ddisgwyliad y Ddeddf o ran pennu un enw ar etholaeth. Nodwn, serch hynny, fod paragraffau 1.4 a 2.1 y Canllaw yn delio i ryw raddau gyda'r mater hwn. O'r cychwyn, gwelwn ym mharagraff 1.4 y Canllaw fod y Comisiwn fel petai wedi troi'r rhagdybiaeth yn y Ddeddf o blaid un enw ar ei ben:

...Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi cynigion cychwynnol yn nodi'r 16 etholaeth newydd yn y Senedd y credwn eu bod yn briodol gydag enwau Cymraeg a Saesneg neu, lle bo'n briodol, un enw...

Nodwn ymhellach fod paragraff 14 y ddogfen ymgynghori gyfredol ei hun yn ymhelaethu rhyw dipyn ar y mater:

Enwi

14. Mae'r ddeddf yn datgan bod yn rhaid i bob etholaeth yng Nghymru gael un enw uniaith, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hynny'n annerbyniol. Os felly, rhaid iddo gynnig enwau gwahanol at ddibenion cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid, felly, i'r Comisiwn ddarparu opsiynau amgen swyddogol yn Saesneg ar gyfer enwau etholaethau sydd yn Gymraeg, ac i'r gwrthwyneb (os yw'n briodol gwneud hynny). Fel hyn, bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Os nad oes modd dod o hyd i unrhyw opsiwn amgen addas, mae'r Comisiwn wedi penderfynu yn y lle cyntaf y bydd etholaethau seneddol y DU yn cael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor gan ddilyn trefn yr enwau Cymraeg. Byddai'r Comisiwn yn croesawu sylwadau sy'n cynnig awgrymiadau amgen i'r enwau a gynigir.

Unwaith eto yn y fan hyn, ymddengys mai safbwynt cyffredinol neu ddiodyn (default) y Comisiwn fel mater o drefn, yw bod rhaid i bob enw Cymraeg gael enw Saesneg cyfatebol, ac i'r gwrthwyneb 'os yw'n briodol'. Eto, ymddengys fod hyn yn gwbl groes i'r rhagdybiaeth glir o blaid un enw Cymraeg yn y Ddeddf, fel yr ydym wedi'i dystiolaethu.

1. Ydych chi'n cydnabod ac yn derbyn mai bwriad Senedd Cymru wrth basio'r Ddeddf oedd, fel man cychwyn, i bob etholaeth gael un enw y unig, a bod hwnnw'n addas ar gyfer cyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, sy'n golygu fel nodir yn y Memorandwm Esboniadol mai 'effaith ymarferol hyn' yw mai enw Cymraeg fyddai i bob pwrpas?

2. A wnewch chi gadarnhau beth yw polisi y Comisiwn o ran enwi etholaethau a sut yr aethoch ati i sicrhau fod y polisi hwnnw yn gyson gyda'r Ddeddf?

3. Pa ystyriaeth roddwyd i bolisi o bennu un enw yn unig i bob etholaeth, yn ddiwahân a heb eithriad, a hwnnw yn enw ar gyfer cyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'r Ddeddf, gyda'r effaith ymarferol fod yn rhaid i'r enw fod yn dderbyniol ar gyfer cyfathrebu

drwy'r Gymraeg, ac os rhoddwyd ystyriaeth, pam ac ar ba sail y cafodd polisi o'r fath ei ddiystyru?

4. A oes gennych ddogfen bolisi neu ganllaw neu debyg ysgrifenedig sy'n gorwedd o dan y Canllaw i Arolwg 2026 a'r hyn a amlinellir yn y rhannau perthnasol o'r ddogfen ymgynghori ar y Cynigion Cychwynnol, nad yw wedi'i gyhoeddi, sy'n cynnwys rhagor o fanylion a chyfarwyddyd am y weithdrefn a'r dull enwi a'r egwyddorion sy'n sail iddi?

5. Pa brofion a/neu egwyddorion penodol y mae'r Comisiwn wedi'u mabwysiadu ac yn eu gweithredu i bennu pryd y dylai weithredu yn groes i ragdybiaeth y Ddeddf y dylai etholaeth gael un enw ar gyfer cyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, ac o dan ba amgylchiadau felly y byddai hynny'n 'annerbyniol'? Beth yw diffiniad cytunedig y Comisiwn o 'annerbyniol' yn y cyswllt hwn?

Diffyg rhesymeg ymddangosiadol gweithrediad gweithdrefn, polisi a dull enwi'r Comisiwn

Ein barn ni yw bod dull y Comisiwn o enwi etholaethau yn groes i lythyren ac ysbryd y Ddeddf, gan mai dim ond 2 o'r 16 etholaeth yn y cynigion sydd ag enwau uniaith Gymraeg.

6. Sut y mae hyn yn gyson gyda'r Ddeddf?

Mae'n anodd gennym ddeall sut ac ar ba sail i chi benderfynu y byddai un enw yn 'annerbyniol' yn enwedig lle mae cynsail wedi ei osod yn ffiniau etholaethau San Steffan neu mai sillafiad yr enwau yw'r unig beth sydd yn wahanol yn y ddwy iaith. Mae Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire, er enghraifft, yn paru etholaethau Caerfyrddin a Llanelli. Mae'r enw uniaith "Caerfyrddin" eisoes wedi'i dderbyn ar lefel San Steffan ar gyfer yr etholaeth honno. Ar y llaw arall, mae "Clwyd" yn cael ei ddefnyddio o'r newydd ac yn defnyddio un enw Cymraeg. Canlyniad hynny yw trin ardaloedd yn wahanol i'w gilydd gan greu anghysondeb a chanlyniadau sy'n groes i fwriad y ddeddfwriaeth.

Mae'n anodd gweld hefyd sut y byddai'n annerbyniol rhoi un enw Cymraeg ar etholaeth fel Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd (Merthyr Tydfil, Aberdare and Pontypridd) neu Blaenau Gwent, Rhymni a Chaerffili (Blaenau Gwent, Rhymney and Caerphilly) pan mai'r sillafiad yw'r unig beth sy'n wahanol.

7. Sut y cafodd unrhyw egwyddorion neu brofion sydd gan y Comisiwn eu cymhwyso felly i arwain at y cynigion penodol hyn? Yr ydym wedi cyfeirio atynt i amlygu gwendid ac i gyfleu nad yw'n ymddangos fod unrhyw weithdrefnau a pholisïau penodol sydd gan y Comisiwn yn ffit i bwrpas.

Nodwedd arall o'r newydd yn sgil y Ddeddf yw'r rheidrwydd statudol i'r Comisiwn rag-ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff enwau arfaethedig yn ystod y broses adolygu ac i roi sylw i'w sylwadau, sydd yn ddyletswydd wrth gwrs ag effaith mewn cyfraith. Mae hyn heb os yn creu disgwyliad y bydd barn y Comisiynydd yn cario pwysau ychwanegol ac o'r newydd na ddylid ei anwybyddu fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol wrth adolygu ffiniau lleol a chymunedol.

Er hynny mae dau gynnig y Comisiynydd o ran orgraff, y ddau yn rhesymol, wedi eu hanwybyddu yn achos 'Alun' a 'Pen-y-bont'. Dydyn ni gyda llaw ddim o'r farn bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno ag orgraff yr enw a gynigir yn y ddwy achos lle mae hi wedi cyflwyno cynnig, fel sydd wedi ei nodi gennych chi. Trwy gyflwyno cynnig ar gyfer newid yr enw mae'n amlwg i ni nad yw Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â nhw.

8. Beth yw trefn y Comisiwn o 'roi sylw' i argymhellion Comisiynydd y Gymraeg a pha egwyddorion a/neu brofion a ddefnyddir i asesu'r sylwadau hynny ac i benderfynu a fydd yn gwyro oddi wrthynt?

Gofynnwn i chi gadarnhau yn ogystal felly, yn seiliedig ar eich hystyriaeth a'r dyfarniad o'r gŵyn a'r ymateb i'r cwestiynau a'r materion a godwn, pa newidiadau fydd yn cael eu gwneud i drefniadau gwaith a gweithdrefnau'r Comisiwn cyn iddo gyhoeddi'r ail ymgynghoriad ar Gynigion pellach maes o law, er mwyn adfer y sefyllfa ddifrifol hon ac osgoi'r un problemau a diffygion rhag cael eu hailadrodd eto.

Diolch,

Sian Howys, Cadeirydd Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith
Cai Phillips, is-gadeirydd Grŵp Hawl Cymdeithas yr Iaith

Copi at:
Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru
Comisiynydd y Gymraeg